Papur y Bwrdd

3 Ebrill 2014

Teitl y Papur	**Ymgynghoriad ar stocio eog gan Cyfoeth Naturiol Cymru, stocio eog gan bartïon eraill a dyfodol deorfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B O 26.14**
Paratowyd y Papur gan:	Jennifer Dack

Pwrpas y Papur:	**Er gwybodaeth**
Argymhelliad:	Nodi'r cefndir, y camau a gymerwyd hyd yma a'r camau nesaf i adolygu ac i ymgynghori ar stocio eog gan Cyfoeth Naturiol Cymru, stocio eog gan bartïon eraill a dyfodol deorfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru.
Angen Penderfyniad:	Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r camau nesaf ac i hysbysu cysylltiadau fel bydd yn briodol am yr adolygiad a'u hannog i ymateb i'r ymgynghoriad.

Effaith: Dylid nodi – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc.	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae angen dŵr o ansawdd da ar bysgod ynghyd â chyflenwad dibynadwy ac maent yn ddangosydd allweddol o berfformiad ecolegol ac ansawdd yr amgylchedd. **Effaith ar yr Economi**: Mae gan bysgodfeydd Cymru rôl bwysig o ran creu swyddi a chynhyrchu incwm drwy bysgota masnachol a hamdden, rheoli pysgodfeydd a thwristiaeth. **Effaith ar Gymuned**: Gall pysgod chwarae rôl bwysig i annog pobl i ymgysylltu â'u hamgylchedd, addysg a chreu cyfleoedd hamdden a'r buddiannau iechyd a ddaw yn sgil hynny. **Effaith ar Wybodaeth:** Mae angen tystiolaeth gref arnom fel sail i'n cyngor i Lywodraeth Cymru ar bolisi pysgodfeydd, fel sail i brosesau penderfynu Cyfoeth Naturiol Cymru ar reoli pysgodfeydd ac fel sail i drafodaethau â phartneriaid a chyd gyflenwyr.

Mater

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r cefndir, y camau a gymerwyd hyd yma a'r camau nesaf i adolygu ac i ymgynghori ar stocio eog gan Cyfoeth Naturiol Cymru, stocio eog gan bartïon eraill a dyfodol deorfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru

Cefndir

2. Fel corff newydd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu sawl agwedd ar y gwaith a wneir gennym i wneud yn siŵr eu bod mor effeithiol â phosibl i gyflawni ar gyfer pobl, yr economi a'r amgylchedd. Un rhaglen yn y gwaith hwn yw'r 'Agenda ar gyfer Newid' sy'n edrych sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio â phartneriaid i gyflenwi pysgodfeydd mewndirol cynaliadwy i Gymru, fel y trafodwyd gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr.

3. Fel rhan o hyn rydym yn edrych ar ein holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â physgodfeydd. Mae hyn yn cynnwys adolygu ein gweithgarwch stocio eog ein hunain a gweithgareddau deorfeydd sy'n gysylltiedig â hynny.

Yr Adolygiad

4. Etifeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru bedair uned deor pysgod gan un o'r cyrff a'i rhagflaenodd, Asiantaeth yr Amgylchedd. Nid yw dwy o'r unedau deor hyn yn weithredol ar hyn o bryd (Mawddach, sydd wedi'i chau dros dro tra'n aros yr adolygiad hwn, a Chlywedog a gaewyd 12 mis yn ôl) ac mae dwy yn weithredol (Cynrig a Maerdy). Mae'r ddwy ddeorfa weithredol yn cael eu defnyddio'n bennaf i gynhyrchu eog i gyflenwi afonydd ledled Cymru, gan gynnwys afonydd Dyfrdwy a Gwy, sydd o boptu'r ffin.

5. Yn yr adolygiad hwn rydym yn ystyried sail resymegol, cyfiawnhad a goblygiadau gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru i fagu a stocio eog yn afonydd Cymru, goblygiadau ein hystyriaethau i eraill sy'n dymuno gwneud hyn, a'n galluogrwydd ni yn y gwaith hwn.

6. Er bod y tîm Gweithredol wedi derbyn argymhellion yr adolygiad, bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ein cynorthwyo i wneud penderfyniad terfynol.

.

Yr ymgynghoriad

7. Ddydd Mawrth 4 Mawrth, lansiodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, a ddaw i ben ar 27 Mai 2014. Mae'r adolygiad a'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/consultations/our-own-consultations/consultation-nrw-salmon-stocking-hatcheries/?lang=cy
   Mae cyfeiriad e-bost pwrpasol wedi'i greu i gasglu ymatebion yr ymgynghoriad ac mae modd ymateb yn ysgrifenedig hefyd.

8. Rydym yn gwahodd sylwadau ar yr argymhellion ac rydym yn croesawu tystiolaeth i ategu sylwadau a wneir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

9. Mae dogfen yr Adolygiad, llyfryddiaeth a'r ddogfen ymgynghori'n rhestru'r papurau, y cyfnodolion a'r arferion gweithredol a ystyriwyd gennym wrth wneud yr argymhellion yn yr adolygiad. Rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth fwyaf cyfoes sy'n hysbys i ni. Os bydd tystiolaeth newydd ar gael yn ystod y cyfnod ymgynghori byddwn yn ei defnyddio i'n helpu i wneud ein penderfyniad terfynol.

Y Camau Nesaf

10. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad. Yn dilyn hyn, cysylltodd BBC Radio Cymru a "Country Focus" BBC Wales â ni am gyfweliadau. Ymddangosodd erthyglau hefyd yn yr Western Mail, Daily Post a BBC Ar-lein Rydym hefyd wedi anfon datganiad at ohebwyr a chyhoeddiadau arbenigol ac rydym yn rhagweld y bydd y stori'n cael sylw ganddynt a byddwn yn cadw golwg ar y cyhoeddiadau hyn, yn ogystal â rhifynnau wythnosol papurau lleol i sicrhau bod y stori'n cyrraedd ein prif randdeiliaid.

11. Rydym wedi paratoi neges e-bost ddwyieithog ar gyfer staff allweddol, sy'n cynnwys dolen at y wefan, i annog cysylltiadau a rhanddeiliaid i ddarllen yr adolygiad ac i ymateb i'r ymgynghoriad.

12. Rydym wedi datblygu cyfres o 'gwestiynau cyffredin' i helpu i ateb ymholiadau. Bydd y 'cwestiynau cyffredin' yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r ymholiadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

13. Mae ein timau gweithredol wedi trefnu cyfarfodydd Grwpiau Pysgodfeydd Lleol yn ystod yr ymgynghoriad i rannu ein tystiolaeth a'n sail resymegol. Bydd ein tîm

cyfathrebu'n parhau i ddarparu deunydd ategol i sicrhau ein bod yn cyfleu neges gyson i'n rhanddeiliaid ledled Cymru.

14. Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn asesu'r ymatebion wrth i ni eu cael yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd crynodeb o'r ymatebion ar gael ar ein gwefan ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

15. Rhaid gwneud penderfyniad ar ddyfodol gweithgarwch stocio eog Cyfoeth Naturiol Cymru a dyfodol ein deorfeydd cyn Medi 2014, cyn casglu unrhyw stoc magu ar gyfer tymor 2014/15.

16. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion byddwn yn cyflwyno adolygiad terfynol ac argymhellion i'r Tîm Gweithredol.

17. Bydd papur yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf. Bydd penderfyniad y Bwrdd yn cael ei ledaenu.

18. Rydym wedi sefydlu grŵp i asesu dichonolrwydd addasu safle Cynig ar gyfer ymchwil dŵr croyw a physgodfeydd. Bydd y grŵp yn ymchwilio i'r potensial ar gyfer partneriaethau â sefydliadau academaidd yng Nghymru neu gyrff ymchwil eraill i ddatblygu ac ariannu gwaith yn safle Cynig.

19. Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac ar benderfyniad y bwrdd wedi hynny, byddwn yn gweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu amserlen realistig ac ymarferol i ddirwyn yr holl weithgarwch stocio eog gan bartïon eraill i ben.

Risgiau

20. Mae angen sicrhau bod y dystiolaeth orau ar gael i ni i benderfynu ar ganlyniad terfynol yr adolygiad.

21. Mae angen egluro'r penderfyniad a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud ein penderfyniad.

22. Mae angen i ni reoli'r camau newydd a fydd yn deillio o'r penderfyniad.

Cyfiawnhad Ariannol

23. Sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni'r canlyniadau amgylcheddol gorau.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

Amherthnasol